LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

Disgrifiad Swydd a Manyleb Person

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

ADRAN 1: MANYLION SWYDD

Teitl Swydd:	Swyddog Dehongli Digidol
Cyfarwyddiaeth:	Casgliadau ac Ymgysylltu
Isadran:	Mynediad a Chynnwys Digidol
Band:	3
Cyflog:	£24,899 - £28,740
Cytundeb:	Tymor Penodol am 2 flynedd
Yn adrodd i:	Rheolwr Rhaglenni Digidol

Pwrpas cyffredinol y rôl:. Cefnogi gwaith isadran Mynediad a Chynnwys Digidol i ehangu presenoldeb a chyrhaeddiad ar-lein y Llyfrgell ar ein gwefannau a llwyfannau trydydd parti drwy rannu a chyflwyno cynnwys digidol wedi'i guradu mewn ffyrdd creadigol. Bydd disgwyl i ddeiliad y swydd gydweithio gydag isadrannau eraill i ddehongli ac ail-bwrpasu casgliadau, cynnwys deongliadol ac arddangosfeydd er mwyn eu rhannu ar-lein, yn unol ag amcanion strategol y Llyfrgell.

ADRAN 2: YR ADRAN

Y Gyfarwyddiaeth Casgliadau ac Ymgysylltu sy'n bennaf gyfrifol am gasglu, diogelu a rhoi mynediad i'r casgliadau sydd yng ngofal y Llyfrgell yn unol a'i swyddogaethau craidd. Yn y cyd-destun hwn mae mynediad yn golygu amrywiaeth eang o weithgareddau gan gynnwys gwasanaethau a gweithgareddau ar y safle, arlein ac mewn cymunedau ledled

Cymru. Mae gwaith y Gyfarwyddiaeth yn rhan greiddiol o wireddu gweledigaeth y Llyfrgell i fod yn sefydliad sy'n:

"... gwneud gwahaniaeth er gwell i bawb yng Nghymru yn awr ac yn y dyfodol ac i fod yn lyfrgell genedlaethol, agored, blaengar ac arloesol."

Trwy ei gwaith mae angen i'r Gyfarwyddiaeth alluogi'r Llyfrgell i gyflawni ei hamcanion strategol a llesiant sef:

1. Meithrin a gofalu am gof y genedl
2. Gosod sylfaen economi gwybodaeth
3. Bod yn ganolog i fywyd y genedl
4. Grymuso Ymchwil a Dysg

Mae casgliadau'r Llyfrgell yn cynnwys llyfrau, papurau newydd, mapiau, archifau a llawysgrifau, ynghyd â lluniau, ffotograffau, deunydd clywedol, gwefannau a chynnwys digidol o bob math. Ynghyd â'r casgliadau, mae sgiliau ac arbenigedd staff y Gyfarwyddiaeth hon yn gwbl angenrheidiol er mwyn sicrhau fod y Llyfrgell yn gallu datgloi potensial y casgliadau hyn i gyfoethogi a gwella bywydau pobl Cymru a thu hwnt.

ADRAN 3: SIART DREFNIADOL



ADRAN 4: DYLETSWYDDAU ALLWEDDOL

- Cefnogi a chynorthwyo gwaith y Rheolwr Rhaglenni Digidol i ddatblygu presenoldeb digidol y Llyfrgell ar ein gwefannau ac ar lwyfannau allanol mewn ffyrdd creadigol.
- Ymchwilio, paratoi a dehongli deunydd yn seiliedig ar gasgliadau'r Llyfrgell er mwyn ei rannu'n rhithiol.
- Cyflwyno casgliadau ac arddangosfeydd, cyfredol a hanesyddol, y Llyfrgell mewn ffyrdd newydd ac arloesol a'u rhannu ar lwyfannau digidol allanol, er enghraifft Casgliad y Werin a Smartify.
- Curadu cynnwys deongliadol ar gyfer Google Arts & Culture.
- Ychwanegu delweddau ynghyd â metadata perthynol ar Flickr Commons, gan gynnwys ymateb i sylwadau defnyddwyr a geir am y delweddau.
- Cydweithio ag isadrannau eraill i adnabod a chreu teithiau ac orielau digidol a'u huwch-lwytho i lwyfannau allanol e.e. Smartify i gyd-fynd â themâu neu ddigwyddiadau penodol e.e. yr Eisteddfod Genedlaethol, hanes yr adeilad ayyb.
- Dyfeisio strategaethau i fesur effaith ein hymgysylltiad ac i ddysgu'n barhaus gan ein cynulleidfaoedd.
- Cydweithio â'r Adran Dysgu ac Ymgysylltu i gynnal arolwg o ddeunyddiau addas y gellid eu cyhoeddi fel adnoddau ar gyfer dysgu anffurfiol a dysgu nad yw'n ffurfiol a chydlynu'r gwaith o'u rhannu ar-lein.
- Dealltwriaeth gyffredinol o'r deddfwriaethau Hawlfraint, Gwarchod Data a Rhyddid Gwybodaeth.

Darperir y Disgrifiad Swydd hwn er mwyn rhoi amlinelliad bras i ddeiliad y swydd o'r gweithgareddau sydd ymhlyg yn y rôl hon. Dichon y bydd y Llyfrgell am i chi ymgymryd â dyletswyddau eraill nad ydynt o angenrheidrwydd wedi eu cynnwys yn y Disgrifiad Swydd ond sydd yn gymesur â graddfa'r swydd. Gellir diwygio'r Disgrifiad Swydd o bryd i'w gilydd o fewn y ffin a lefel y cyfrifoldeb sy'n berthnasol i'r swydd hon.

ADRAN 5: CYFRIFOLDEB

- **Cyfrifoldeb dros bobol:** Dim
- **Cyfrifoldeb dros reolaeth cyllid:** Dim

ADRAN 6: CYSYLLTIADAU GYDAG ERAILL

Cysylltiadau Mewnol	**Natur y Cysylltiad**
Staff Isadran Mynediad a Chynnwys Digidol, Adran Dysgu ac Ymgysylltu (yn cynnwys Arddangosfeydd a Gwasanaethau Addysg) a'r Adran Hyrwyddo a Marchnata	Cydweithio â staff i adnabod deunydd priodol i'w ddehongli a'i ail-bwrpasu er mwyn ei rannu ar-lein. Trafod cynnwys a ffurf y deunydd i'w rannu, a chytuno ar amserlen ar gyfer cwblhau a chyhoeddi'r gwaith.
Cysylltiadau Allanol	**Natur y Cysylltiad**
Amrywiol	Cysylltiadau gydag artistiaid/awduron/academyddion i greu cynnwys deongliadol newydd e.e. cyfweliadau. Bydd, o bosib, hefyd angen trafod materion megis hawlfraint a thrwyddedu.
	Cydweithio gyda sefydliadau cenedlaethol a phartneriaethau amrywiol.

ADRAN 7: DATRYS PROBLEMAU

Bydd deiliad y swydd, mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Rhaglenni Digidol a Phennaeth yr Isadran, yn datrys amrywiol broblemau, yn cynnwys materion hawlfraint, cysoni gwybodaeth a metadata, ac addasu cynlluniau yn sgil problemau technegol.

ADRAN 8: PENDERFYNU

Bydd gofyn i'r swyddog, mewn cydweithrediad â'r Rheolwr Rhaglenni Digidol a Phennaeth yr Isadran, wneud penderfyniadau ynglŷn â chynllunio, dehongli ac

amserlennu cynnwys i'w rannu ar-lein, gan gynnwys dewis deunydd digidol perthnasol o blith casgliadau a chynnwys deongliadol y Llyfrgell.

ADRAN 9: MANYLEB PERSON

PRIODOLEDD	HANFODOL	DYMUNOL
Gwybodaeth / Addysg	• Safon addysg dda • Adnabyddiaeth o gasgliadau'r Llyfrgell neu brofiad perthnasol • Ymwybyddiaeth o'r angen i gyflwyno gwybodaeth ar nifer o lefelau • Bod yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg gyda'r gallu i greu deunydd ysgrifenedig cywir a deniadol, i'r safon uchaf, yn y ddwy iaith • Adnabyddiaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a threftadaeth Cymru • Sgiliau TG da a llythrennedd cyfrifiadurol • Sgiliau cyfathrebu rhagorol • Sgiliau trefnu a chynllunio da • Bod yn ddisgybledig, hyblyg a hunanfeddiannol gyda'r gallu i weithio'n annibynnol ac i gwrdd â therfynau amser tyn • Y gallu i weithio'n gysurus a brwd fel rhan o dîm	• Dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â hawlfraint, eiddo deallusol a thrwyddedu

Profiad		• Profiad o ddefnyddio llwyfannau megis Casgliad y Werin, Smartify, Google Arts and Culture ayyb. • Profiad o waith Llyfrgell/Amgueddfa/Oriel